# Adroddiad Blynyddol 2018/19

## Cyng. Annwen Hughes

## Plaid Cymru

## Ward Llanbedr



Pwrpas yr adroddiad yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn

Gweler y ddolen i wefan y Cyngor am fanylion cyfrifoldebau, pwyllgorau a chyrff allanol rwy'n eu gwasanaethu, ynghyd a chofnod o bresenoldeb

## Prif Weithgareddau Etholaethol a Chymunedol

- Parhau i weithio yn y Gymuned a chyd-weithio gyda'r Cynghorau Cymuned Lleol i wneud yn siŵr fod buddiannau'r gymuned yn cael eu diogelu
- Wedi llwyddo i gael cefndir melyn i'r arwyddion 40 m.y.a. bob ochr i'r ffordd ger y fynedfa i Ganolfan Gristnogol Pensarn yn dilyn gosod y stripiau coch bob ochr i'r ffordd
- Helpu ar bob cyfle bosib yn y gegin cawl a gynhelir ar gyfer henoed pentrefi Llanbedr a Llanfair. Mae cyfle yma i gael sgwrs gyda'r trigolion sy'n mynychu a gwrando ar eu pryderon a'u cwynion
- Ymweld â'r Ysgol Gynradd yn Llanbedr yn rheolaidd a chyflwyno gwobrau i'r disgyblion diwedd tymor yr haf
- Cynnal cyfarfodydd gyda rhai o drigolion Llandanwg, gan wrando ar eu pryderon, megis ynglŷn â chais caffi lleol am drwydded diodydd
- Dal i ymgyrchu gyda Swyddogion Network Rail i gael rhwystrau ar groesfan Talwrn Bach, Llanbedr
- Cyfarfodydd i drafod y ffordd osgoi a'r dymuniad i'r Cynllun fynd gerbron Pwyllgor Cynllunio'r Parc Cenedlaethol unwaith yn rhagor
- Cyfarfod Grŵp Amddiffyn Twyni Llandanwg i glywed am eu pryderon am erydiad y twyni ar y traeth a'r gwaith maent yn ei wneud i geisio atal yr erydiad hwn
- Mynychu y seremoni o droi goleuadau Nadolig Pentref Llanbedr ymlaen, a bod yn rhan o'r noson gymdeithasol gafodd ei chynnal i ddilyn
- Trefnu i fynd o amgylch y Pentref i gasglu ysbwriel gyda rhai o'r trigolion lleol
- Rwyf yn Drysorydd Eisteddfod Flynyddol Ardudwy ers sawl blwyddyn ac yn mwynhau mynychu
- Mynychu Ffair Nadolig a Sioe Nadolig Ysgol Gynradd Llanbedr
- Mynychu Gwasanaeth Carolau Ysgol Ardudwy

# Cyfarfodydd, Seminarau a Hyfforddiant y bu i mi eu mynychu

- Yn ystod y cyfnod hwn bum yn Gadeirydd y Cyngor, ble cefais y fraint o fynychu nifer o ddigwyddiadau y tu allan i’r Ward, megis Bore Coffi y WRVS a’r Groes Goch yn Nolgellau (Tachwedd), gwasanaeth carolau yn Ysbyty Dolgellau (Rhagfyr) ayyb ayyb
- Cadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanbedr
- Cadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Ardudwy (ers Medi 2018)
- Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Mynychu cyfarfodydd Cyngor Cymuned Llanbedr a Llanfair yn fisol
- Mynychu cyfarfodydd o bwyllgor y Neuadd Bentref yn Llanbedr yn rheolaidd
- Mynychu cyfarfodydd Grŵp Rhanddeiliaid Gwella Mynediad i Faes Awyr Llanbedr

| | |
|---|---|
| Tai Teg - Pa Gynlluniau Sydd ar Gael | 20/02/2019 |
| Microsoft PowerPoint Uwch | 19/11/2018 |
| Gofal Cymdeithasol Oedolion - Ymchwil Recriwtio a Chadw Staff Gofal Cartref | 28/09/2018 |
| Diogelu Plant ac Oedolion (2018) | 19/09/2018 |
| Credyd Cynhwysol | Universal Credit | 11/07/2018 |
| Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi | 11/07/2018 |
| Llinellau Ffôn Uniongyrchol (Gangiau Cyffuriau Cyfundrefnol) | 27/06/2018 |
| Buddsoddi yng Ngwynedd | 09/05/2018 |